SKAPP03

# Cydlynu a goruchwylio gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio peirianwaith pwll

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â sicrhau fod cyfleusterau a chyfarpar y pwll, peirianwaith pwll ac ardaloedd atodol yn cael eu monitro a'u cynnal. Mae hefyd yn ymwneud â goruchwylio prif atgyweiriadau, mân atgyweiriadau a gwelliannau i'r cyfleusterau a'r cyfarpar.

Mae'r safon hon wedi'i bwriadu ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio ar y lefel hon.

Prif ddeilliant y safon hon ydy:

1. cydlynu a goruchwylio rhaglen cynnal a chadw ac atgyweirio cyfleusterau ac offer peirianwaith pwll

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Cydlynu a goruchwylio rhaglen cynnal a chadw ac atgyweirio cyfleusterau ac offer peirianwaith pwll**

* *

1.
cydlynu a goruchwylio gwaith cynnal a chadw **cyfleusterau** ac offer peirianwaith pwll trwy ddilyn canllawiau'r gwneuthurwyr, rhaglen cynnal a chadw gyfundrefnol a gofynion iechyd a diogelwch
2.
trosglwyddo'r **safonau** ynglŷn â chyflwr y **cyfleusterau** a'r cyfarpar i'r **staff** sy'n gweithio yn y maes rydych chi'n gyfrifol amdano
3.
rhoi adnoddau i'r **staff** fonitro a chynnal cyflwr y **cyfleusterau** a'r offer peirianwaith pwll
4.
cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau fod y **cyfleusterau** a'r offer peirianwaith pwll yn bodloni'r **safonau* *cytunedig
5.
gwirio bod gwybodaeth am unrhyw broblemau gyda'r **cyfleusterau** a'r offer peirianwaith pwll sydd wedi'u nodi yn ystod y gwaith cynnal a chadw wedi'i trosglwyddo i'r person perthnasol
6.
cydlynu atgyweiriadau trwy ddilyn dulliau gweithredol
7.
cael gwared ar gyfarpar a neu **gyfleusterau** pan gaiff problem ei nodi a chadw'r ardal a neu'r cyfarpar ar wahân
8.
monitro'r **gwaith** a rhoi cefnogaeth er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r rhaglen gytunedig
9.
rhoi gwybodaeth i **staff** perthnasol a **phobl eraill** ynglŷn â'r **gwaith** sy'n digwydd ac unrhyw drefniadau sy'n cael effaith arnyn nhw
10.

rhoi dulliau gweithredu yn eu lle er mwyn cynnal iechyd a diogelwch y **staff** a **phobl eraill** pan fydd y **gwaith** yn digwydd

11.

gwirio bod **gwaith,** pan fydd wedi'i gwblhau, yn bodloni'r rhaglen gytunedig

12.

cwblhau a storio cofnodion cynnal a chadw

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Cydlynu a goruchwylio rhaglen cynnal a chadw ac atgyweirio cyfleusterau ac offer peirianwaith pwll**

* *

1.
eich cyfrifoldebau a'ch rhwymedigaethau personol o dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol
2.
egwyddorion y ddyletswydd gofal a gofynion cyfreithiol ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio cyfleusterau a chyfarpar
3.
y rhesymau dros drosglwyddo'r safonau ynglŷn â chyflwr y cyfleusterau a'r cyfarpar i'r staff
4.
y rhesymau dros ddilyn canllawiau cynnal a chadw ac atgyweirio y gwneuthurwyr, y cyflenwyr a'r gosodwyr
5.
yr adnoddau sydd eu hangen ar y staff er mwyn cynnal a chadw'r cyfarpar a'r cyfleusterau i'r safon gytunedig
6.
y rhaglen cynnal a chadw gytunedig ar gyfer cyfarpar a chyfleusterau a pham ei bod hi'n bwysig ei dilyn
7.
yr archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd sydd eu hangen a sut a phryd dylai'r rhain gael eu cynnal
8.
y dulliau gweithredu cyfundrefnol ar gyfer caniatáu atgyweiriadau
9.
y dulliau gweithredu i'w dilyn wrth ymdrin â chontractwyr allanol
10.
y math o broblemau all godi gyda chyfleusterau, cyfarpar, gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a sut i reoli hyn o fewn a thu allan i'ch cyfrifoldebau
11.

y rhaglen waith sydd ar fynd a pham ei bod hi'n bwysig lleihau unrhyw amhariad ar weithredoedd arferol

12.

y math o amhariadau all godi a sut i reoli hyn

13.

y goblygiadau iechyd a diogelwch sydd angen eu hystyried yn ystod gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio a sut i leihau'r risg i staff a phobl eraill

14.

y mathau o gefnogaeth ac adnoddau efallai y bydd eu hangen er mwyn bodloni'r rhaglen

15.

yr anghenraid i gyfathrebu'n rheolaidd gyda staff a phobl eraill yn ystod gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio

16.

cofnodion gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio y mae'n rhaid eu cwblhau a pham eu bod yn bwysig

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Cyfleusterau**

1.
y pwll ac ardaloedd atodol
2.
ystafelloedd peirianwaith
3.
storfa gemegau
4.
ardaloedd danfon

* *

**Staff**

1.
mewnol
2.
allanol

* *

**Safonau**

1.
cyflogwr
2.
gwneuthurwr
3.
cyflenwr
4.
gosodwr
5.
deddfwriaeth/rheoliadau
6.
canllawiau diwydiant

**Gwaith**

1.

gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio cyfarpar
2.
gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio cyfleusterau

**Eraill**

1.
contractwyr allanol
2.
ymwelwyr cyfreithlon ac anghyfreithlon

## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol canlynol yn sail i sut gaiff gwasanaethau eu darparu yn y sector chwaraeon a hamdden

1.
parodrwydd i ddysgu
2.
parodrwydd i gymryd cyfrifoldeb
3.
agwedd hyblyg at waith
4.
gweithiwr tîm
5.
agwedd gadarnhaol
6.
gwerthoedd moesegol personol a phroffesiynol

## Ymddygiadau